



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 309 (Cy.50)

2012 No. 309 (W.50)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Rheoliadau Personau Anabl
(Bathodynnau ar gyfer Cerbydau
Modur) (Cymru) (Diwygio) 2012

The Disabled Persons (Badges for
Motor Vehicles) (Wales)
(Amendment) Regulations 2012

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae bathodyn person anabl (sy'n cael ei adnabod fel "Bathodyn Glas") yn galluogi deiliad y bathodyn i fanteisio ar amryw o gonsesiynau parcio ac esemptiadau rhag ffioedd penodol sy'n gymwys i fodurwyr eraill. Mae Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/1786 (Cy.123)) ("y Prif Reoliadau") yn gwneud darpariaeth ynglŷn â rhoi bathodynnau gan yr awdurdodau lleol.

A disabled person's badge (known as a "Blue Badge") enables the holder to benefit from a range of parking concessions and exemptions from certain charges which apply to other motorists. The Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000 (S.I. 2000/1786 (W.123)) ("the Principal Regulations") make provision regarding the issue of the badges by local authorities.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Prif Reoliadau, yn bennaf, drwy ei gwneud yn ofynnol i waith dylunio a gweithgynhyrchu'r bathodynnau gydymffurfio â gofynion technegol sydd gryn dipyn yn fwy soffistigedig, a'r rheiny wedi'u bwriadu i leihau'r risg o ffugio bathodynnau.

These Regulations amend the Principal Regulations, primarily, by requiring that the design and manufacture of badges must comply with substantially more sophisticated technical requirements, designed to mitigate the risk of forgery.

Mae'r diwygiadau arwyddocaol eraill yn cynnwys dileu'r ffi am fathodyn i ymgeiswyr newydd ac am adnewyddu bathodynnau sydd eisoes yn bod, codi'r uchafswm ffi o £2 i £10 am fathodyn yn lle un arall ac am fathodyn sefydliad, a galluogi'r awdurdodau lleol i wrthod rhoi bathodyn neu i dynnu bathodyn yn ôl yn sgil un gollfarn o dan y ddeddfwriaeth sy'n cael ei defnyddio i erlyn am fod bathodynnau wedi'u camdefnyddio'n dwyllodrus.

Other significant amendments include removing the fee for a badge for new applicants and for renewals of existing badges, raising the maximum fee from £2 to £10 in the case of replacement badges and for organisational badges, and enabling local authorities to refuse to issue or to withdraw badges following a single conviction under the legislation used to prosecute fraudulent misuse of badges.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn o effaith y diwygiadau ar y gost i fyd busnes ac i'r sector gwirfoddol ar gael oddi wrth Yr Is-Adran Trafnidiaeth Integredig, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

A full regulatory impact assessment of the effect that the amendments will have on the cost to business and the voluntary sector is available from the Integrated Transport Division, Cathays Park, CF10 3NQ.

2012 Rhif 309 (Cy.50)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwneud 7 Chwefror 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 2 Chwefror 2012

Yn dod i rym 1 Mawrth 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970,(1) a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru,(2) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(3) yn gwneud y Rheoliadau hyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r rheoliadau hyn yw Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(4) yn unol â pharagraffau (2) i (9).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) ar ôl y diffiniad o "Deddf 1984" rhowch—

(1) 1970 p.44

(2) Cafodd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2, Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(3) Cafodd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30, Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(4) O.S. 2000/1786 (Cy.123).

2012 No. 309 (W.50)

ROAD TRAFFIC, WALES

The Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) (Amendment) Regulations 2012

Made 7 February 2012

*Laid before the National
Assembly for Wales* 2 February 2012

Coming into force 1 March 2012

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 21 of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970 (1), transferred to the National Assembly for Wales(2), and now vested in them(3) make the following Regulations.

Title, commencement and application

1.—(1) These regulations are called the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) (Amendment) Regulations 2012 and come into force on 1 March 2012.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Amendment of Regulations

2.—(1) The Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(4) are amended in accordance with paragraphs (2) to (9).

(2) In regulation 2 (interpretation)—

(a) in paragraph (1)—

(i) after the definition of "the 1984 Act" insert—

(1) 1970 c.44.

(2) Powers of the Secretary of State under section 21 of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970 were transferred to the National Assembly for Wales by article 2, Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(3) Powers of the National Assembly for Wales under section 21 of the Chronically Sick and Disabled Persons Act 1970 were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30, Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(4) S.I. 2000/1786 (W.123).

"ystyr "dyddiad rhoi" ("*date of issue*") yw'r dyddiad y bydd bathodyn person anabl yn ddilys i'w ddefnyddio am y tro cyntaf;"

(b) yn lle paragraff (3) rhowch—

"(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "collfarn berthnasol" ("*relevant conviction*") yw unrhyw gollfarn am dramgwydd a bennir ym mharagraff (4) a gyflawnwyd mewn perthynas â bathodyn person anabl-

- (a) yn erbyn deiliad y bathodyn hwnnw; neu
- (b) yn erbyn unrhyw berson arall sy'n defnyddio'r bathodyn hwnnw gyda gwybodaeth y deiliad ar unrhyw adeg tra oedd y tramgwydd yn cael ei gyflawni."; ac

(c) yn lle paragraff (4) rhowch—

"(4) Y tramgwyddau a grybwyllwyd ym mharagraff (3) yw unrhyw dramgwydd—

- (a) o dan adran 21(4B) o Ddeddf 1970;
- (b) o dan adran 115 neu 117 o Ddeddf 1984; neu
- (c) sy'n ymwneud ag unrhyw anonestrwydd neu dwyll o dan unrhyw ddarpariaeth arall yn Neddf 1970, yn Neddf 1984 neu mewn unrhyw deddfwriaeth arall sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig, neu mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig."

(3) Yn rheoliad 4 (disgrifiadau o bersonau anabl) ym mharagraff (1)(a) yn lle "3 blwydd" rhowch "2 flwydd".

(4) Yn rheoliad 6 (ffi am roi bathodyn a chyfnod y rhoi)—

(a) yn lle paragraff (1) rhowch—

"(1) Yn achos bathodyn unigolyn ac arno ddyddiad rhoi ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012, ni chaiff awdurdod lleol godi ffi am roi'r bathodyn—

- (a) os na fu gan yr ymgeisydd fathodyn person anabl o'r blaen; neu
- (b) os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am adnewyddu bathodyn person anabl sydd eisoes yn bod, os yw'r bathodyn hwnnw wedi dod i ben neu ar fin dod i ben."

(b) ar ôl paragraff (1) rhowch—

"(2) Yn achos bathodyn sefydliad ac arno ddyddiad rhoi ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012, ni chaiff awdurdod lleol godi ffi o fwy na £10 am roi bathodyn—

- (a) os na fu gan yr ymgeisydd fathodyn person anabl o'r blaen; neu
- (b) os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am adnewyddu bathodyn person anabl sydd eisoes yn bod, os yw'r bathodyn hwnnw wedi dod i ben neu ar fin dod i ben."

"date of issue" ("*dyddiad rhoi*") means, the date on which a disabled person's badge is first valid for use;"

(b) replace paragraph (3) with—

"(3) In these Regulations "relevant conviction" ("*collfarn berthnasol*") means any conviction for an offence specified in paragraph (4) committed in relation to a disabled person's badge of—

- (a) the holder of that badge; or
- (b) any other person using that badge with the knowledge of the holder at any time during which the offence was being committed."; and

(c) replace paragraph (4) with—

"(4) The offences mentioned in paragraph (3) are any offence—

- (a) under section 21(4B) of the 1970 Act;
- (b) under section 115 or 117 of the 1984 Act; or
- (c) involving dishonesty or deception under any other provision of the 1970 Act, of the 1984 Act or of any other legislation applicable in the United Kingdom, or any part of the United Kingdom."

(3) In regulation 4 (descriptions of disabled persons) in paragraph (1)(a) replace "3" with "2".

(4) In regulation 6 (fee for issue and period of issue of a badge)—

(a) replace paragraph (1) with—

"(1) In the case of an individual's badge which has a date of issue on or after 1 April 2012, a local authority may not charge a fee for the issue of a badge where—

- (a) the applicant has not previously held a disabled person's badge; or
- (b) the applicant is applying to renew an existing disabled person's badge, where that badge has expired or is about to expire."

(b) after paragraph (1) insert—

"(2) In the case of an organisational badge which has a date of issue on or after 1 April 2012, a local authority may not charge a fee of more than £10 for the issue of a badge where—

- (a) the applicant has not previously held a disabled person's badge; or
- (b) the applicant is applying to renew an existing disabled person's badge, where that badge has expired or is about to expire."

- (c) Ar ôl paragraff (2) rhowch—
- "(3) Yn achos bathodyn unigolyn yn lle un arall neu fathodyn sefydliad yn lle un arall gollwyd sy'n cael ei roi yn unol â rheoliad 7 ac arno ddyddiad rhoi ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012, ni chaiff awdurdod lleol godi ffi o fwy na £10 am roi'r bathodyn hwnnw yn lle un arall."
- (ch) ailrifwch y paragraff (2) bresennol fel paragraff (4).
- (5) Yn rheoliad 7—
- (a) yn lle'r pennawd rhowch "Bathodynnau yn lle rhai eraill";
- (b) ym mharagraff (1)—
- (i) ar ôl y gair "modur" rhowch "neu sydd fel arall yn ei atal rhag cael ei adnabod yn gywir neu sy'n atal gwahaniaethu rhyngddo a ffugiad"; a
- (ii) yn lle "gyda'r gair "dyblygiad" wedi ei farcio ar ei flaen" rhowch "mewn ffurf sydd drwy rifau olynol yn dynodi pob bathodyn olynol a roddir i'r person anabl neu'r sefydliad (yn ôl fel y digwydd) gan yr awdurdod rhoi."
- (6) Yn rheoliad 8 (seiliau dros wrthod rhoi bathodyn)—
- (a) ym mharagraff (2)(a)—
- (i) dileer "neu o dan Reoliadau 1982"; a
- (ii) yn lle "o leiaf dair collfarn berthnasol" rhowch "gollfarn berthnasol";
- (b) ar diwedd paragraff (2)(b)(i) rhowch "neu ei fod yn byw yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw";
- (c) ar ddiwedd paragraff (2)(c) dileer "neu"; ac
- (ch) ar ôl paragraff (2)(ch)(ii) rhowch—
- "(d)bod gan yr ymgeisydd fathodyn dilys eisoes sydd wedi'i roi gan awdurdod rhoi arall."
- (7) Yn rheoliad 9 (dychwelyd bathodyn i'r awdurdod rhoi)—
- (a) ar ddiwedd paragraff (1)(d) rhowch "neu ei fod wedi dioddef unrhyw ddifrod arall sydd fel arall yn ei atal rhag cael ei adnabod yn gywir neu sy'n atal gwahaniaethu rhyngddo a ffugiad";
- (b) ar ddiwedd paragraff (1)(dd) rhowch "neu fod bathodyn dilys arall yn cael ei roi i'r deiliad gan awdurdod rhoi arall.";
- (c) ym mharagraff (2)(a) dileer "ar o leiaf dri achlysur"; ac
- (ch) ar ddiwedd paragraff (2)(b) rhowch "neu fod y deiliad wedi honni ei fod wedi trosglwyddo'r bathodyn i berson arall".
- (c) After paragraph (2) insert—
- "(3) In the case of a replacement individual's badge or a replacement organisational badge issued in accordance with regulation 7 which has a date of issue on or after 1 April 2012, a local authority may not charge a fee of more than £10 for the issue of that replacement badge."
- (d) re-number existing paragraph (2) as paragraph (4).
- (5) In regulation 7—
- (a) for the heading substitute "Replacement badges";
- (b) in paragraph (1)—
- (i) after the word "vehicle" insert "or which otherwise prevents it from being identified correctly or distinguished from a forgery"; and
- (ii) replace "with the word "duplicate" marked on the front" with "in a form which identifies by consecutive numbering each successive badge issued to the disabled person or organisation (as the case may be) by the issuing authority."
- (6) In regulation 8 (grounds for refusal to issue a badge)—
- (a) in paragraph (2)(a)—
- (i) delete "or under the 1982 Regulations"; and
- (ii) replace "at least three relevant convictions" with "a relevant conviction";
- (b) at the end of paragraph (2)(b)(i) insert "or that he or she is resident in the area of that local authority";
- (c) at the end of paragraph (2)(c) delete "or"; and
- (d) after paragraph (2)(d)(ii) insert—
- "(e)the applicant already holds a valid badge which has been issued by another issuing authority."
- (7) In regulation 9 (return of badge to issuing authority)—
- (a) at the end of paragraph (1)(e) insert "or has suffered any other damage which otherwise prevents it from being identified correctly or distinguished from a forgery";
- (b) at the end of paragraph (1)(f) insert "or another valid badge is issued to the holder by another issuing authority.";
- (c) in paragraph (2)(a) replace "at least three relevant convictions" with "a relevant conviction"; and
- (d) at the end of paragraph (2)(b) insert "or that the holder has purported to transfer the badge to another person".

(8) Yn lle rheoliad 11 (ffurf bathodyn) rhowch—

"Ffurff bathodyn"

11.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys o ran bathodyn ac arno ddyddiad rhoi cyn 1 Ebrill 2012 ac mae paragraff (3) yn gymwys o ran bathodyn ac arno ddyddiad rhoi ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

(2) Bydd bathodyn person anabl yn y ffurf ragnodedig—

(a) os yw blaen a chefn y bathodyn yn y ffurf a ddangosir—

(i) yn Rhan I o'r Atodlen yn achos bathodyn unigolyn; neu

(ii) yn Rhan II o'r Atodlen yn achos bathodyn sefydliad; a

(b) os yw'r bathodyn yn cydymffurfio â'r manylion yn Rhan III o'r Atodlen.

(3) Bydd bathodyn person anabl yn y ffurf ragnodedig—

(a) os yw blaen a chefn y bathodyn yn y ffurf a ddangosir—

(i) yn Rhan IA o'r Atodlen yn achos bathodyn unigolyn (gan hepgor y gair "sample" lle y mae'n ymddangos); neu

(ii) yn Rhan IIA o'r Atodlen yn achos bathodyn sefydliad (gan hepgor y gair "sample" lle y mae'n ymddangos); a

(b) os yw'r bathodyn yn cydymffurfio â'r manylion yn Rhan IIIA o'r Atodlen."

(9) Yn yr Atodlen—

- (a) ym mhennawd Rhan I, dileer y gair "Ffurff";
- (b) ar ôl y pennawd "Bathodyn Unigolyn", rhowch "(ac arno ddyddiad rhoi cyn 1 Ebrill 2012)";
- (c) ar ôl Rhan I, rhowch y ddarpariaeth a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn;
- (ch) ym mhennawd Rhan II dileer y gair "Ffurff";
- (d) ar ôl y pennawd "Bathodyn Sefydliad", rhowch "(ac arno ddyddiad rhoi cyn 1 Ebrill 2012)";
- (dd) ar ôl Rhan II, rhowch y ddarpariaeth a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn;
- (e) yn Rhan III (Manylion ar gyfer Bathodyn), ar ôl y pennawd "Manylion ar gyfer Bathodyn", rhowch "(ac arno ddyddiad rhoi cyn 1 Ebrill 2012)"; ac
- (f) ar ôl Rhan III, rhowch y ddarpariaeth a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

(8) Replace regulation 11 (form of badge) with—

"Form of badge"

11.—(1) Paragraph (2) applies in respect of a badge with a date of issue before 1 April 2012 and paragraph (3) applies in respect of a badge with a date of issue on or after that date.

(2) A disabled person's badge is in the prescribed form if—

(a) the front and reverse of the badge are in the form shown in—

(i) Part I of the Schedule in the case of an individual's badge; or

(ii) Part II of the Schedule in the case of an organisational badge; and

(b) the badge complies with the specifications in Part III of the Schedule.

(3) A disabled person's badge is in the prescribed form if—

(a) the front and reverse of the badge are in the form shown in—

(i) Part IA of the Schedule in the case of an individual's badge (with the omission of the word "sample" where it appears); or

(ii) Part IIA of the Schedule in the case of an organisational badge (with the omission of the word "sample" where it appears); and

(b) the badge complies with the specifications in Part IIIA of the Schedule."

(9) In the Schedule—

- (a) in the heading to Part I, delete the words "Form of";
- (b) after the heading "Individual's Badge", insert "(with a date of issue before 1 April 2012)";
- (c) after Part I, insert the provision set out in Schedule 1 to these Regulations;
- (d) in the heading to Part II delete the words "Form of";
- (e) after the heading "Organisational Badge", insert "(with a date of issue before 1 April 2012)";
- (f) after Part II, insert the provision set out in Schedule 2 to these Regulations;
- (g) in Part III (Specifications for Badge), after the heading "Specifications for Badge", insert "(with a date of issue before 1 April 2012)"; and
- (h) after Part III, insert the provision set out in Schedule 3 to these Regulations.

Carl Sargeant

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o
Weinidogion Cymru

7 Chwefror 2012

Minister for Local Government and Communities, one
of the Welsh Ministers

7 February 2012

ATODLEN 1

Rheoliad 11(3)(a)(i)

"RHAN IA

BATHODYN UNIGOLYN

(AC ARNO DDYDDIAD RHOI AR NEU AR ÔL
1 EBRILL 2012)

ATODLEN 2

Rheoliad 11(3)(a)(ii)

"RHAN IIA

BATHODYN SEFYDLIAD

(AC ARNO DDYDDIAD RHOI AR NEU AR ÔL
1 EBRILL 2012)

ATODLEN 3

Rheoliad 11(3)(b)

"RHAN IIIA

MANYLION AR GYFER BATHODYNNAU

(AC ARNYNT DDYDDIAD RHOI AR NEU AR
ÔL 1 EBRILL 2012)

1. Pob Bathodyn

Mae'r manylion sy'n gymwys i bob bathodyn fel a ganlyn—

- (a) rhaid i'r bathodyn fod yn 106 milimetr o ran uchder, 148 milimetr o ran lled (a bod â chorneli crwn 5mm o ran radiws) a 720 micron o ran trwch, â goddefiant uchder a lled o plws neu minws 1 milimetr a goddefiant trwch o plws neu minws 20 micron;
- (b) rhaid i'r bathodyn fod wedi'i argraffu ar dalenni craidd o bolyfynyl clorid gwyn a rhaid i'r holl brint fod wedi'i amgáu mewn haenau allanol o blastig clir;
- (c) rhaid i'r bathodyn fod wedi'i argraffu â rhif cyfresol unigryw, sef cyfres o rifau a llythrennau sy'n dynodi gwybodaeth allweddol am y bathodyn a'r deiliad, gan gynnwys rhif olynol pob bathodyn yn lle un arall a roddir i ddeiliad y bathodyn gan yr awdurdod rhoi;

SCHEDULE 1

Regulation 11(3)(a)(i)

"PART IA

INDIVIDUAL'S BADGE

(WITH A DATE OF ISSUE ON OR AFTER 1
APRIL 2012)

SCHEDULE 2

Regulation 11(3)(a)(ii)

"PART IIA

ORGANISATIONAL BADGE

(WITH A DATE OF ISSUE ON OR AFTER 1
APRIL 2012)

SCHEDULE 3

Regulation 11(3)(b)

"PART IIIA

SPECIFICATIONS FOR BADGES

(WITH A DATE OF ISSUE ON OR AFTER 1
APRIL 2012)

1. All Badges

The specifications applicable to all badges are as follows—

- (a) the badge must be 106 millimetres in height, 148 millimetres in width (with 5mm radius rounded corners) and 720 microns in thickness, with height and width tolerances of plus or minus 1 millimetre and a thickness tolerance of plus or minus 20 microns;
- (b) the badge must be printed on white polyvinyl chloride core sheets and all print must be fused with clear plastic outer layers;
- (c) the badge must be printed with a unique serial number, comprising a series of numbers and letters that identify key information about the badge and the holder, including the consecutive number of each replacement badge issued to the badge holder by the issuing authority;

- (ch) rhaid i gefndir blaen a chefn y bathodyn fod wedi'i argraffu'n ddiogel â lithograffeg i gynnwys guilloche llinellau main, niwmismateg, gwaith testun o led newidiol ac adeileddau eraill mewn llinellau main sy'n gyson â pharagraff (l);
- (d) rhaid argraffu'n ddiogel gefndir sy'n dangos unrhyw ymyrraeth yn y blychau sy'n dynodi'r dyddiad y daw'r bathodyn i ben a'i rif ac enw'r deiliad;
- (dd) rhaid argraffu nodweddion meicro-destun nad dydynt yn weledol ond o dan chwyddwydr ar flaen a chefn y bathodyn;
- (e) rhaid cynnwys nodweddion cyffyrddadwy boglynnog a nodweddion Braille (sy'n ymgorffori patrymau adeileddau llinellau gweledol) ar flaen y bathodyn, heb indeintiad cyfatebol ar gefn y bathodyn;
- (f) rhaid i symbol y defnyddiwr cadair olwynion a welir ar flaen y bathodyn fod yn hologram diogelwch wedi'i amgáu mewn sgwâr a'i ochrau'n mesur 30 milimetr, gan ymgorffori fflip delwedd, meicro-destun, nano-destun, nano-nodwedd ar wahân a dyluniad logo'r gadair olwynion yn erbyn cefndir ac arno'r geiriau "bathodyn glas";
- (ff) rhaid i gefn y bathodyn gynnwys cod bar newidiol sy'n dynodi'r dyddiad y daw'r bathodyn i ben;
- (g) rhaid i'r bloc lliw a welir ar flaen pob bathodyn a roddir yn ystod unrhyw flwyddyn galendr fod yn lliw sy'n dynodi'r flwyddyn yn gyson a hwnnw'n sylweddol wahanol i'r lliwiau a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd calendr blaenorol;
- (ng) rhaid i'r bathodyn gael ei lunio fel ei fod yn gwrthsefyll gwres ac yn sefydlog mewn tymheredd hyd at o leiaf 120 gradd Celsius (a rhaid i awdurdod lleol ei fodloni ei hun fod bathodynau y mae'n bwriadu eu rhoi yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn (cyn rhoi unrhyw fathodynau o'r fath) drwy sicrhau adroddiad sy'n cadarnhau eu bod yn cydymffurfio felly (drwy gyfeirio at fathodyn enghreifftiol) oddi wrth gorff priodol; ac
- (h) rhaid i'r bathodyn gynnwys unrhyw nodweddion diogelwch ychwanegol a fydd yn lleihau ymhellach ar risg ffugio a hynny, cyn belled ag y bo'n ymarferol, drwy atal y bathodyn rhag cael ei gopïo'n hwylus a thrwy ganiatáu i fathodynau dilys gael eu gwahaniaethu oddi wrth rai ffug.
- (d) the background on the front and reverse sides of the badge must be lithographically security printed to include fine line guilloche, numismatics, variable width text workings and other fine line structures which are consistent with paragraph (l);
- (e) a security printed, tamper evident background must be printed in the boxes which identify the expiry date and number of the badge and the name of the holder;
- (f) micro text features which are only visible under magnification must be printed on the front and reverse sides of the badge;
- (g) embossed tactile and Braille features (which incorporate visual, line structure patterns) must be included on the front side of the badge, without any corresponding indentation on the reverse side of the badge;
- (h) the wheelchair user symbol that appears on the front side of the badge must be a security hologram enclosed within a square with sides each measuring 30 millimetres, incorporating an image flip, micro-text, nano-text, a separate nano-feature and the design of the wheelchair logo against a background of the words "blue badge";
- (i) the rear side of the badge must contain a variable bar code which identifies the expiry date of the badge;
- (j) the coloured block which appears on the front side of all badges issued during any calendar year must be a consistent year identifier colour which differs substantially from the colours used in prior calendar years;
- (k) the badge must be constructed so that it is heat resistant and stable to a temperature of at least 120 degrees Celsius (and a local authority must satisfy itself that badges it proposes to issue are compliant with this requirement (before issuing any such badges) by obtaining a report verifying such compliance (by reference to a sample badge) from an appropriate body); and
- (l) the badge must include such additional security features as will further mitigate the risk of forgery by, so far as practicable, preventing the badge from being copied readily and allowing genuine badges to be distinguished from forgeries.

At ddibenion paragraff (ng), ystyr "corff priodol" yw corff sydd wedi'i achredu â Safon ISO 9001:2008 (Systemau Rheoli Ansawdd) (a baratowyd gan y Sefydliad Safoni Rhyngwladol)(1)) ac y mae ganddo, ym marn yr awdurdod lleol, yr arbenigedd angenrheidiol i ddarparu'r adroddiad.

2. Bathodynau unigolion

Mae'r manylion ychwanegol sy'n gymwys i fathodyn unigolyn fel a ganlyn—

- (a) yn ddarostyngedig i baragraffau (b) ac (c), rhaid i gefn bathodyn unigolyn gynnwys ffotograff digidol agos o ben ac ysgwyddau deiliad y bathodyn. Rhaid i ddiffiniad y ffotograff rhwng yr wyneb a'r cefndir fod yn gryf a rhaid i'r ffotograff fod—
 - (i) mewn lliw;
 - (ii) yn 45 milimetr o ran uchder a 35 milimetr o ran lled (maint pasbort);
 - (iii) wedi'i dynnu—
 - (aa) o fewn mis cyn dyddiad y cais;
 - (bb) yn erbyn cefndir o liw llwyd golau neu hufen;
 - (iv) heb ei ddifrodi;
 - (v) yn rhydd rhag "llygaid coch", cysgodion, adlewyrchiad neu lacharedd sbectol;
 - (vi) yn ffotograff o ben cyflawn y deiliad (heb fod person arall yn weladwy neu unrhyw orchudd, oni bai bod hwnnw'n cael ei wisgo oherwydd credo grefyddol neu resymau meddygol)—
 - (aa) yn wynebu ymlaen;
 - (bb) heb ddim yn gorchuddio'r wyneb;
 - (cc) yn edrych yn syth at y camera;
 - (dch)â phryd a gwedd niwtral a'r geg ar gau; a
 - (dd) â'r llygaid ar agor ac yn glir i'w gweld (heb sbectol haul neu sbectol ag arlliw a heb wallt neu ffrâm sbectol yn cuddio'r llygaid);
 - (vii) mewn ffocws pendant ac yn glir;
 - (viii) wedi'i argraffu'n broffesiynol neu ar ffurf ddigidol; a
 - (ix) yn dangos tebygrwydd gwirioneddol, heb ei ddiwygio.
- (b) nid yw paragraff (a) yn gymwys i fathodyn a roddir yn unol â chais a wnaed gan berson anabl os yw'r awdurdod rhoi wedi'i fodloni bod yr amcangyfrif o ddisgwyliad oes y person hwnnw yn llai na chwe mis o ddyddiad y cais,

For the purposes of paragraph (k) an "appropriate body" means a body accredited to Standard ISO 9001:2008 (Quality Management Systems) (prepared by the International Organisation for Standardization)(1)) and which, in the opinion of the local authority, has the necessary expertise to provide the report.

2. Individual's Badges

The additional specifications applicable to an individual's badge are as follows—

- (a) subject to paragraphs (b) and (c), the rear side of an individual's badge must contain a close up digital photograph of the head and shoulders of the badge holder. The photograph must have a strong definition between face and background and must be—
 - (i) in colour;
 - (ii) 45 millimetres in height and 35 millimetres in width (passport size);
 - (iii) taken—
 - (aa) within a month prior to the date of the application;
 - (bb) against a light grey or cream background;
 - (iv) undamaged;
 - (v) free from "red eye", shadows, reflection or glare from spectacles;
 - (vi) of the full head of the holder (without any other person visible or any covering, unless it is worn for religious beliefs or medical reasons)—
 - (aa) facing forward;
 - (bb) with nothing covering the face;
 - (cc) looking straight at the camera;
 - (dd) with a neutral expression and mouth closed; and
 - (ee) with eyes open and clearly visible (without sunglasses or tinted spectacles and without hair or spectacle frames obscuring the eyes);
 - (vii) in sharp focus and clear;
 - (viii) printed professionally or in digital format; and
 - (ix) a true likeness, without amendment.
- (b) paragraph (a) does not apply to a badge issued pursuant to an application made by a disabled person if the issuing authority is satisfied that the estimated life expectancy of that person is less than six months from the date of the

(1) ISBN 9780580687389 yw rhif argraffiad Sefydliad Safonau Prydain o'r Safon.

(1) The British Standards Institution publication of the Standard has the ISBN 9780580687389.

ac os felly rhaid i'r lle a fyddai fel arall yn cynnwys ffotograff gynnwys copi o'r faner a welir ar flaen y bathodyn.

- (c) nid yw paragraffau (a)(vi)(cc) ac (a)(vi)(chch) yn gynnwys i ffotograffau o blant pump oed neu lai.
- (ch) rhaid i'r cod bar newidiol ar gefn y bathodyn ddynodi blwyddyn eni'r deiliad ac (mewn cod) ei rywedd.
- (d) rhaid i'r rhif cyfresol a argreffir ar y bathodyn ddynodi mis a blwyddyn geni'r deiliad ac (mewn cod) ei rywedd.

3. Bathodynnau Sefydliad

Mae'r manylion ychwanegol sy'n gymwys i fathodyn sefydliad fel a ganlyn —

Rhaid i gefn bathodyn sefydliad gynnwys copi mewn lliw o logo'r sefydliad (os oes un), sy'n gorfod bod yn 45 milimetr o ran uchder a 35 milimetr o ran lled. Os nad oes gan y sefydliad logo, rhaid cynnwys yn y lle a fyddai fel arall yn cynnwys y logo gopi o'r faner a welir ar flaen y bathodyn."

© © Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

application, in which case the space that would otherwise include a photograph must contain a copy of the flag that appears on the front of the badge.

- (c) paragraphs (a)(vi)(cc) and (a)(vi)(dd) do not apply to photographs of children aged five years and under.
- (d) the variable bar code on the rear side of the badge must identify the year of birth and (in code) the gender of the holder.
- (e) the serial number printed on the badge must identify the month and year of birth and (in code) the gender of the holder.

3. Organisational badges

The additional specifications applicable to an organisational badge are as follows—

The reverse side of an organisational badge must contain a colour copy of the logo (if any) of the organisation, which must be 45 millimetres in height and 35 millimetres in width. If the organisation does not have a logo, the space that would otherwise include the logo must contain a copy of the flag that appears on the front of the badge."

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 309 (Cy.50)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Personau Anabl
(Bathodynau ar gyfer Cerbydau
Modur) (Cymru) (Diwygio) 2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 309 (W.50)

ROAD TRAFFIC, WALES

The Disabled Persons (Badges for
Motor Vehicles) (Wales)
(Amendment) Regulations 2012

£5.75

W1186/02/12

ON

ISBN 978-0-348-10689-3



9 780348 106893